
WG35.5.37



# GALAR GAN

A GYFANSODDWYD GAN GYFAILL, ER COFFADWRIAETH AM

# JOHN ELIAS,

O BLWYF LLANDYFEILOG, SIR GAERFYRDDIN,

***Yr hwn a fu farw, ar y 15fed o Fai 1849, yn 26ain oed.***

---

O Angau! pa fodd y rhyfygaist ti dori,
Blodeuyn mor dyner, a siriol a hyn;
O weithred ddiaddurn, gresynus mewn difri,
Rhoi blod'yn mor beraidd, dan gloion y glyn.

Daw'r Gwanwyn dan wenu, i harddu y dyffryn,
Daw'r meillion prydferthaf, a gwychaf eu gwedd,
Ond John ni cha' weled hoff degwch y rhosyn,
Mewn caddug gorbruddawl, yn nghilfach y bedd.

Daw'r haul i dywynu'n nysgleirdeb yr hafddydd,
A'i euraidd belydron lewyrcha'n mhob man;
Ond John ni cha' weled ei degwch ysplenydd,
Mae'n cysgu yn dawel yn mhridell y Llan.

A daw y Cynhauaf, gan alw'r llafurwyr,
I'r maesydd yn lluoedd, ar doriad y wawr;
Gadewir y gwenith i'r dewrion fedelwyr,
Ond John ni ddaw dori'r un dywysen i lawr.

A'r Gauaf a'r ei oerwyntoedd ysgythyrog,
Gan ruo'i daranlais, yn groch uwch ei fedd;
Er hyny mai John, trwy'r tywydd tymhestlog,
Yn eithaf digyffro, yn huno mewn hedd.

Fel hyn yn eu cylchoedd, tymhorau ehedant,
Llawenydd na galar, ni theimla ei fron;
Y byd na'i helyntion, ni wyr ef oddiwrthynt,
Dim gwaith na dychymyg, nid oes lle mae John.

Er hyny daw cyfnod, o'i drwmgwsg y deffry,
Pan na bydd tymhorau'n cyfnewid y byd;
Trwy lef yr Archangel y cyfyd i fyny,
Mewn gwedd ogoneddus, yn ddysglaer ei bryd.

Fel blod'yn fe'th blanwyd yn hardd yn y wynfa,
Mewn hinsawdd dymherach, hyfrytach na hon,
Lle tyf yn naturiol y bywyd hawddgara,
Mewn urddas tragwyddol, heb dranc y bydd John.

---

ARGRAFFWYD GAN J. THOMAS, YN HEOL Y PRIOR, CAERFYRDDIN.

X205308545

1118W